**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC 19-00(p8)**

**DYDDIAD: 13 RHAGFYR 2000**

**AMSER : 2.00- 5.30PM**

**LLEOLIAD: YSTAFELL BWYLLGORA 1, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

# MONITRO A GWERTHUSO CYNNYDD FFISEGOL AC ARIANNOL RHAGLENNI AMCAN 1 A 3, 2000-2006

## Crynodeb

1. Mae'r papur amgaeedig yn disgrifio i'r Pwyllgor y trefniadau arfaethedig ar gyfer monitro a gwerthuso'r camau ffisegol ac ariannol a gymerir yn sgil Rhaglenni Amcan 1 ac Amcan 3. Mae'n ymgorffori argymhellion y Pwyllgor Adolygu y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu Grwp Monitro a Gwerthuso Ymchwil Economaidd.

2. Pennir trefniadau monitro a gwerthuso rhaglen Amcan 1 gan Reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd a'r bennod yn y Ddogfen Raglennu Sengl ar roi'r Rhaglen ar waith.

3. Mae'r trefniadau monitro a gwerthuso ar gyfer rhaglen Amcan 3 hefyd wedi'u pennu gan Reoliadau'r Comisiwn a'r bennod yn Nogfen Raglennu Weithredol Amcan 3 sy'n ymdrin â'i rhoi ar waith.

4. Dyletswydd y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni yw sicrhau bod y rhaglenni y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac at y safon uchaf. I'r perwyl hwn, byddant yn bwrw golwg o dro i dro ar y camau a gymerir at wireddu amcanion penodol y rhaglenni.

## Argymhelliad

5. Bod y Pwyllgor yn nodi'r papur amgaeedig.

# MONITRO A GWERTHUSO CYNNYDD FFISEGOL A GWERTHUSO RHAGLENNI AMCAN 1 A 3 2000-2006

## Cefndir

1. Pennir trefniadau monitro a gwerthuso Rhaglenni Amcan 1 a 3 fel ei gilydd yn Erthyglau 36-43 Rheoliad 1260/1999 y Comisiwn Ewropeaidd a'r penodau rhoi ar waith yn y Dogfennau Rhaglennu. Eu bwriad yw sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac at y safonau uchaf, hynny trwy asesu'r camau a gymerir at wireddu'r dangosyddion ariannol ac effaith a ddisgrifir yn y Dogfennau Rhaglennu. Bydd pob Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn ystyried y materion gwerthuso ac mae'r papurau ar gael ar wefan WEFO.

## Monitro Ariannol

2. WEFO sy'n gyfrifol am hawlio grantiau oddi wrth y Comisiwn ar gyfer y Rhagleni fesul rhandaliad, ar sail datganiadau o wariant ardystiedig. Bydd y Comisiwn, fodd bynnag, yn datymrwymo grantiau os na fydd wedi derbyn datganiad derbyniol o wariant ar ei chyfer. Bob blwyddyn, bydd y Comisiwn yn datymrwymo'r gwahaniaeth rhwng y grantiau sydd wedi'u hymrwymo ar y tablau ariannol a'r grant sydd wedi'i ddyrannu. Er mwyn i'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni allu cadw golwg ar y rheol datymrwymo fel ag y maent yn y Rheoliadau, cymherir y targed dyrannu grant diweddaraf ar gyfer pob cronfa yn rheolaidd â'r hyn sydd wedi'i ddyranu.

3. Caiff adroddiadau eu gwneud i bob Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar y grant a ymrwymwyd ac a dalwyd i'r noddwyr fesul Blaenoriaeth, Mesur a Chronfa a byddant yn cynnwys cyfradd y grant a faint o'r grant a ddyranwyd gan y Comisiwn gan alluogi'r Pwyllgorau i fonitro hynt y Rhaglenni o'u cymharu â'r tablau ariannol yn yr Atodiad i'r Rhagen. Caiff adroddiadau eu paratoi hefyd ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar wariant a rhagolygon pob Cronfa ar sail cyllidebau'r Cynulliad.

## Monitro Cynnydd

4. Bydd WEFO yn cadw golwg ofalus ar yr hyn a gyflawnir gan bob prosiect i gadarnhau hynt ffisegol y Rhaglen. Pennir targedau penodol ar gyfer pob prosiect wedi trafod gyda'r noddwyr wrth asesu'r ceisiadau. Cesglir gwybodaeth am hynt y prosiectau i gwrdd â'r targedau ar y ffurflenni cais am daliad. Y dangosyddion hyn fydd sail fframwaith gwerthuso'r Rhaglen. Paratoir adroddiadau ar gyfer pob Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar hynt pob Blaenoriaeth a Mesur o'i gymharu â'r targedau a bennir ar gyfer dangosyddion y gweithgaredd, y canlyniadau a'r effaith; cynhwysir hefyd fanylion o ran themâu trawsbynciol Cyfleoedd Cyfartal, y Gymdeithas Wybodaeth a Chynaliadwyedd Amgylcheddol.

## Adroddiadau Blynyddol

5. Yn unol ag erthygl 37 y Rheoliadau, bydd WEFO yn paratoi Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn galendr dros gyfnod rhoi'r Rhaglen ar waith. Anfonir adroddiad at y Comisiwn o fewn 6 mis cyn diwedd pob blwyddyn dros gyfnod ei rhoi ar waith. Bydd y Pwyllgor Monitro yn

archwilio'r adroddiad ac yn ei gymeradwyo cyn caniatau ei anfon ymlaen i'r Comisiwn. Disgwylir yr adroddiadau cyntaf erbyn 30 Mehefin 2002.

6. Bydd gofyn i'r adroddiad ymdrin â'r canlynol:

- newidiadau i natur gymdeithasol-economaidd ardal y Rhaglen a all fod yn berthnasol i'r Rhaglen;
- sut mae'r gwaith o roi blaenoriaethau a mesurau'r Rhaglen ar waith yn mynd rhagddo o'i gymharu â'r targedau;
- cost rhoi'r Rhaglen ar waith;
- y camau a gymerir gan WEFO a'r Pwyllgorau Monitro perthnasol i sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol at y safon uchaf;
- y camau a gymerir i sicrhau bod y Rhaglen yn gydnaws â pholisïau'r Comisiwn, a
- y sefyllfa o ran ariannu prosiectau mawr a grantiau aml-brosiect.

7. Rhoddir adroddiad terfynol ar bob Rhaglen i'r Comisiwn cyn pen 6 mis i'r dyddiad olaf y mae'n rhaid gwario'r arian. Disgwylir i'r rhain gynnwys manylion tebyg a bodloni'r un amodau â'r adroddiadau blynyddol.

**Cynllun Busnes Monitro Blynyddol**

8. Fel atodiad i'r adroddiadau blynyddol, ac er mwyn i'r Pwyllgorau Monitro fod yn dawel eu meddwl bod y Rhaglen yn mynd yn ei blaen yn unol â'r bwriad, cyflwynir Cynllun Busnes Monitro gerbron y Pwyllgorau bob blwyddyn. Bydd yn nodi amcangyfrif o'r ymrwymiadau a'r taliadau ar gyfer pob mesur bob blwyddyn, ac wrth i'r Rhaglen fynd yn ei blaen, y ffigurau gwirioneddol o ran yr ymrwymiadau, y taliadau a'r canlyniadau o'u cymharu â'r targedau.

9. Yn eu cyfarfodydd cyntaf, bu'r Pwyllgorau Monitro yn ystyried adroddiad a nodai amcangyfrifon gorau WEFO o ran y gwaith y disgwylir ei wneud yng ngweddill 2000. O fewn y tri mis cyn diwedd pob blwyddyn, bydd pob Pwyllgor Monitro yn derbyn adroddiad arall yn disgrifio'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ynghyd ag adroddiad ar y gwaith y disgwylir ei wneud ym mlwyddyn nesaf rhoi'r Rhaglenni ar waith Rhaglen.

**Ymweliadau Rheoli Arian**

10. Bwriedir dechrau cyfres o ymweliadau safle yn 2001. Pwrpas yr ymweliadau fydd

cadanrhau cynnydd ffisegol ac ariannol y prosiectau, eu bod yn cyfateb i'r ceisiadau a gymeradwywyd, bod y trefniadau caffael a chyhoeddusrwydd yn gyson â'r rheolau ac er mwyn cynnal asesiad ehangach o ansawdd y prosiect. Bydd Adroddiadau Blynyddol y Rhaglenni yn cyfeirio at hynt yr ymweliadau.

11. Yn ôl y Rheoliadau, bydd gofyn i WEFO ddilysu o leiaf 5% o gyfanswm gwariant cymwys pob Rhaglen er mwyn cadarnhau bod y gwaith sy'n cael ei ariannu trwy'r Cronfeydd Strwythurol yn cael ei wneud yn iawn, er mwyn gallu rhwystro neu unioni unrhyw afreoleidd-dra, ac adennill arian a gollir yn sgil afreoleidd-dra.

**Gwerthuso**

12. Er mwyn cloriannu eu heffeithiolrwydd, caiff Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol eu gwerthuso hanner ffordd trwy'r Rhaglen ac yna ar ddiwedd y Rhaglen.

13. Prif elfennau'r gwerthusiad ganol tymor, a fydd yn cael ei gynnal gan aseswyr annibynnol, fydd:

- asesu hynt pob Rhaglen at gyrraedd ei thargedau a'r modd y defnyddir adnoddau ariannol;
- penderfynu i ba raddau y mae'r Ddogfen Raglennu yn parhau'n berthnasol i sefyllfa gymdeithasol-economaidd yr ardal;
- asesu priodoldeb mecanweithiau monitro'r Rhaglen a'r modd y mae'n cael ei rhoi ar waith;
- gwneud argymhellion ar gyfer sut orau i ddefnyddio'r adnoddau sy'n weddill ar gyfer y Rhaglenni.

14. Caiff y gwerthusiad ganol tymor ei roi gerbron y Pwyllgor Monitro priodol a'i anfon ymlaen i'r Comisiwn erbyn 31 Rhagfyr 2003 fan hwyraf, gyda golwg ar fwrw golwg unwaith eto ar y Rhaglen a'i haddasu yn ôl y gofyn i adlewyrchu unrhyw amgylchiadau newydd.

15. Y Comisiwn Ewropeaidd fydd yn gyfrifol am drefnu'r gwerthusiad ar ôl diwedd y Rhaglen, ar y cyd â WEFO. Aseswyr annibynnol fydd yn gyfrifol am gynnal y gwerthusiadau a'u cwblhau o leiaf dair blynedd ar ôl diwedd cyfnod y rhaglen. Bydd yn ymdrin â'r modd y defnyddiwyd adnoddau, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Rhaglenni, eu heffeithiau a daw i gasgliadau ynghylch polisi ar gydlyniant economaidd a chymdeithasol. Byddant yn ystyried hefyd y ffactorau sydd wedi cyfrannu at lwyddiant neu feithiant y Rhaglen a'i chanlyniadau a'r hyn a gyflawnwyd, gan gynnwys ei chynaliadwyedd.

## Cyfleoedd Cyfartal

16. Mae adran 4 yr atodiad i'r rhaglen yn disgrifio sut bydd y themâu trawsbynciol yn cael eu rhoi ar waith. At ddiben hynny, bydd gofyn sefydlu Uned Gydraddoldeb o fewn WEFO i sicrhau bod trefniadau hyfforddi, gweithredu, monitro a gwerthuso da yn cael eu datblygu at ddiben trefnu a lledaenu'r rhaglen a dylai'r Pwyllgorau Monitro dderbyn adroddiad monitro Cyfleoedd Cyfartal a fydd yn disgrifio'r camau a gymerwyd i gyrraedd y targedau penodol yn y Ddogfen Raglen a'r Rhaglen Weithredol ac ar normaleiddio cydraddoldeb i'r rhywiau.

## Cronfa Berfformiad

17. Dyrennir y gronfa berfformiad ar sail asesiad a wneir gan WEFO ar berfformiad y Ddogfen Raglennu ar y naill law a'r Rhaglen Weithredol ar y llall, hynny erbyn 31 Rhagfyr 2003 fan hwyraf, gan ddefnyddio dangosyddion dethol i fesur y modd y cawsant eu rheoli, eu goblygiadau ariannol a'u heffeithiolrwydd. Rhestrir y dangosyddion yn y penodau ar roi'r rhaglenni ar waith yn y Ddogfen Raglennu a'r Rhaglen Weithredol.

18. Mae WEFO yn gyfrifol, law yn llaw â'r Comisiwn, am bennu targedau ganol tymor ar gyfer pob blaenoriaeth a chymherir y perfformiad ganol tymor gwirionedol â hwy. Bydd arian ychwanegol o'r gronfa ar gael ar gyfer y blaenoriaethau hynny sy'n gwneud yn dda.

## Prosiectau Unigol

19. Ceir gwybodaeth am brosiectau cymeradwy unigol pob rhaglen ar wefan WEFO ichi eu darllen.

## Strategaeth Werthuso

20. Mae strategaethau gwerthuso yn cael eu datblygu gan WEFO ar gyfer pob Rhaglen, i'w dilysu gan y Pwyllgorau Monitro. Maent yn seiliedig ar y dybiaeth fod gwerthuso'n broses ddi-dor yn hytrach na rhywbeth sydd ond yn digwydd ddwywaith ym mywyd rhaglen. Mae strategaeth ar gyfer gwerthuso ESG Amcan 3 wedi'i chynnig a chyhoeddir strategaethau gwerthuso ERDF, EAGGF ac FIFG Amcan 1 cyn hir.

21. Mae'r cymalau ar werthuso yn nogfennau'r Rhaglenni yn cyfeirio at waith sydd ar y gweill i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer gwerthuso effaith gwaith Cronfeydd Strwythurol Ewrop ar unigolion, cwmnïau a chyrff ym mhob un o wledydd y DU ac at ofynion y Comisiwn o ran gwerthuso ganol tymor a diwedd rhaglen.

22. Er mai'r Pwyllgorau Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau yn eu lle er mwyn ei gwneud hi'n bosib gwerthuso effaith y rhaglen yn iawn ac i fodloni gofynion y Comisiwn, mae'n rhaid wrth fesur o gysondeb wrth werthuso Cronfeydd Strwythurol er mwyn cynhyrchu

gwybodaeth ar lefel y DU a bwydo Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gyflogaeth. Mae fframwaith y DU yn cynnwys dangosyddion cyffredin ar gyfer mesur effaith y rhaglen a methodoleg cytun ar gyfer casglu’r wybodaeth y gofynnir amdani. Mae’r dangosyddion craidd hyn eisoes wedi’u hymgorffori yn y Ddogfen Raglennu a’r Atodiadau drafft i’r Rhaglenni.

23. Mae Grwp Sefydlog ar Werthuso wedi’i sefydlu ar lefel y DU i fwrw ymlaen â’r gwaith o ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer gwerthuso Cronfeydd Strwythurol holl raglenni Ewrop dros y cyfnod 2000-2006. Gan ddefnyddio cyngor y Grwp Sefydlog fel sail, mae strategaethau gwerthuso yn cael eu dyfeisio ar gyfer pob Rhaglen.

24. Mae Pwyllgor Monitro Amcan 3 wedi cytuno ar strategaeth werthuso a rhaglen waith ar gyfer rhaglen Amcan 3. Bydd hyn yn sail ar gyfer gwerthuso llwyddiant y rhaglen i gyflawni ei hamcanion. Bydd y strategaeth yn ymgorffori prif elfennau fframwaith y DU ar gyfer gwerthuso Cronfeydd Strwythurol a bydd hefyd yn clustnodi meysydd eraill o ddiddordeb yng nghyd-destun Amcan 3. Caiff strategaeth werthuso a rhaglen waith tebyg ar gyfer rhaglen Amcan 1 eu rhoi gerbron Pwyllgor Monitro Amcan 1 cyn bo hir. Er y bydd hyn yn sicrhau dull cyson ar gyfer gwerthuso prosiectau’r Cronfeydd Strwythurol ar draws rhaglenni Amcan 1 a 3, bydd yn ymgorffori hefyd gynigion ar gyfer gwerthuso Cronfeydd Strwythurol eraill.

**Cymorth Proffesiynol**

25. Byddwn yn creu tîm gwerthuso arbenigol bychan o fewn y Grwp Ymchwil a Datblygu i ystyried y gwaith a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol. Bydd yn seiliedig ar y baich gwaith ychwanegol a gofynion llymaf strategaethau gwerthuso’r rhaglenni newydd gyda golwg ar gynnal astudiaethau fydd yn bwydo’r adroddiadau rheolaidd ar y rhaglenni sy’n bod eisoes a’r rhaglenni newydd, yn ogystal â datblygu strategaethau ar gyfer gwerthuso’r rhaglenni hyn a’u rhoi ar waith. Bydd y galw am y cymorth hwn yn tyfu gan fod gan Raglenni’r Cronfeydd Strwythurol newydd ofynion monitro a gwerthuso llymach o lawer, ac os cânt eu hanwybyddu, datymrwymir yr arian Ewropeaidd a’i grafangu yn ôl.

26. Yn ein barn ni, er mwyn i’r tîm fod yn effeithiol, bydd angen o leiaf arbenigwr mewn economeg, ystadegau a gwerthuso arno – ynghyd ag arweinydd, ymchwilydd/gwerthuswr, ystadegydd cynorthwyol ac economegydd cynorthwyol a chymorth gweinyddol.

Bydd y tim yn gyfrifol am:

- Reoli’r prosiectau ymchwil a gwerthuso, gan gynnwys adroddiadau blynyddol a chanol tymor yn unol â gofynion rheoliadau’r Comisiwn

- rhoi cyngor ar y math o wybodaeth fonitro sydd ei hangen a sut i’w chasglu, a dadansoddi’r wybodaeth honno i fwydo adroddiadau gwerthuso

- rhoi cyngor i WEFO ar gynlluniau gweithredu strategol/rhanbarthol blaenoriaeth a lleol ac ar werthuso prosiectau unigol

- cyfrannu at ddatblygu a chynnal strategaethau gwerthuso a chynhyrchu adroddiadau i'r Pwyllgorau Monitro a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd

- Cynrychioli'r Cynulliad ar Grwp Sefydlog Gwerthuso'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a ffora eraill yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop

- Sicrhau bod y Bartneriaeth yn cael gwybod canlyniadau'r gwaith monitro a gwerthuso a'r arferion gorau er mwyn rheoli Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn well.

27. Yn yr adolygiad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd o'r Polisi Cymorth i Fusnesau, argymhellir sefydlu Uned Monitro a Gwerthuso Ymchwil Economaidd o fewn y Cynulliad Cenedlaethol i atgyfnerthu gwaith y Bwrdd Polisi trwy feithrin dealltwriaeth well o economi Cymru a datblygu systemau i fonitro a gwerthuso llwyddiant rhaglenni, gan gynnwys cronfeydd strwythurol, i gyflawni'u amcanion economaidd strategol.

Argymhellir bod yr uned yn cael ei sefydlu trwy gyfethol a secondio ymchwilwyr o asiantaethau eraill megis y WDA, awdurdodau lleol, prifysgolion, ac ar sail fasnachol, y sector breifat. Mae WEFO yn disgwyl cydweithio â'r uned i gyflawni ei chyfrifoldebau am werthuso rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol.